

3 Awst 2022

Annwyl Swyddog Cyfrifol

## Dynodiad at Ddibenion Penodol

Fel yr amlinellir ym mharagraffau 16 – 20 ein [Polisi Dynodi](#), yn unol ag is-adran 30(6) o Ddeddf Cymwysterau Cymru, mae gennym y pŵer i ddynodi cymwysterau at ddibenion penodol, gan gynnwys drwy gyfeirio at y dysgwyr y mae'r cymhwyster wedi'i anelu atynt.

Gallwn hefyd nodi nad yw cymhwyster wedi'i ddynodi at un neu fwy o ddibenion penodol. Er enghraifft, efallai y byddwn yn nodi nad yw cymhwyster wedi'i ddynodi i'w ddefnyddio mewn ysgolion a gynhelir, ond ei fod wedi'i ddynodi at bob diben arall.

Er mwyn hwyluso'r defnydd o'r pwerau hyn, rydym wedi gwneud newidiadau i gronfa ddata QiW.

Mae'r 'blychau ticio' ystod oedran blaenorol wedi'u disodli gan grid Math o Ddysgwr a fydd yn caniatáu i chi wneud cais, a/neu i ni reoli, gwahanol gyfnodau dynodi, lle bo'n briodol, ar gyfer gwahanol ystodau oedran. Mae hefyd yn darparu blwch testun rhydd lle gellir nodi 'diben penodol' ochr yn ochr â'r cyfnod dynodi perthnasol at y diben penodol hwnnw.

Rydym wedi creu canllawiau newydd ar gyfer cyrff dyfarnu ynghylch dynodi a QiW, sy'n cynnwys enghreifftiau o ddibenion penodol. Gellir gweld y canllaw hwn [yma](#).

Lle mae cyfnodau dynodi gwahanol ar gyfer gwahanol ystodau oedran, neu at ddibenion penodol, bydd y cymhwyster yn cael ei amlygu a'i restru fel un a

### Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org)

### Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

ddynodwyd ar QiW o'r dyddiad cyntaf y caiff ei ddynodi neu ei gymeradwyo hyd at Ddyddiad Gorffen yr Ardystio a restrir.

Er enghraifft, os yw cymhwyster wedi'i ddynodi tan 31/08/2024 ar gyfer ystod oedran -16 ond yn parhau i fod wedi'i ddynodi tan 31/08/2025 ar gyfer ystod oedran 16-18, bydd y cymhwyster yn dal i gael ei amlygu ac yn gymhwyster byw dynodedig tan 31/08. /2025.

Byddwn yn rhoi gwybod i ganolfannau am bwysigrwydd gwirio dyddiadau gorffen dynodiadau'r ystodau oedran sy'n berthnasol iddynt.

Byddwn yn llenwi cynllun newydd y dyddiadau gorffen yn awtomatig ar QiW gyda'r data a gedwir ar QiW ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw gamau i gyrff dyfarnu eu cymryd ar hyn o bryd; er gwybodaeth yn unig y mae'r llythyr hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ddynodiad at ddibenion penodol neu'r newidiadau i QiW, cysylltwch â [recognitionandapproval@qualificationwales.org](mailto:recognitionandapproval@qualificationwales.org)

Yr eiddoch yn gywir



Delyth Jones

Pennaeth Cymeradwyo a Chydnabyddiaeth